Cyllid & Thollau EF

# Crynodeb o'r cyfrifiad treth

## Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026 (2025-26)

**Eich enw**

**Eich Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)**

## Hunanasesiad

Gallwch ddefnyddio'r daflen waith yn y 'Nodiadau: Crynodeb o'r cyfrifiad treth' i gyfrifo cyfanswm y dreth, ad-daliad Benthyciad Myfyriwr, ad-daliad Benthyciad Ôl-raddedig, Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 2 a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 4 sy'n ddyledus, neu sydd wedi eu gordalu, ar gyfer 2025-26. Os yw'r canlyniad yn swm positif, nodwch y swm ym mlwch 1; os yw'r swm yn negyddol nodwch y swm ym mlwch 2. I gael help wrth lenwi'r ffurflen hon, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad a darllen y nodiadau a'r taflenni cymorth.

1 **Cyfanswm y dreth (gall hyn gynnwys ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr neu ad-daliadau Benthyciad Ôl-raddedig) CYG Dosbarth 2 a CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus cyn unrhyw daliadau ar gyfrif**

£ . 

2 **Cyfanswm y dreth (gall hyn gynnwys ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr neu ad-daliadau Benthyciad Ôl-raddedig) CYG Dosbarth 2 a CYG Dosbarth 4 a ordalwyd**

£ . 

3 **Ad-daliad Benthyciad Myfyriwr sy'n ddyledus**

£ . 0 0

3.1 **Ad-daliad Benthyciad Ôl-raddedig sy'n ddyledus**

£ . 0 0

4 **CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus**

£ . 

4.1 **CYG Dosbarth 2 sy'n ddyledus**

£ . 

5 **Treth Enillion Cyfalaf sy'n ddyledus**

£ . 

6 **Taliadau pensiwn sy'n ddyledus**

£ . 

## Treth a dandalwyd a dyledion eraill

Os ydych yn talu treth trwy TWE, edrychwch ar eich P2 'Hysbysiad Cod TWE' a'r nodiadau yn adrannau 10 ac 11 y 'Nodiadau: Crynodeb o'r cyfrifiad treth', yna llenwch flychau 7, 8 a 9 fel y bo'n briodol.

7 **Treth a dandalwyd ar gyfer blynyddoedd cynharach a gynhwyswyd yn eich cod treth ar gyfer 2025-26** – nodwch y swm a ddangosir fel 'swm y dreth a dandalwyd ar gyfer blynyddoedd cynharach' o'ch P2 'Hysbysiad Cod TWE'

£ . 

8 **Treth a dandalwyd ar gyfer 2025-26 a gynhwyswyd yn eich cod treth ar gyfer 2026-27** – nodwch y swm a ddangosir fel 'tandaliad amcangyfrifedig ar gyfer 2025-26' o'ch P2 'Hysbysiad Cod TWE'

£ . 

9 **Dyled heb ei thalu a gynhwyswyd yn eich cod treth ar gyfer 2025-26** – nodwch y swm o'ch P2 'Hysbysiad Cod TWE'

£ . 

## Taliadau ar gyfrif

Darllenwch y nodiadau yn adran 12 y 'Nodiadau: Crynodeb o'r cyfrifiad treth' i weld a oes angen i chi wneud taliadau ar gyfrif ar gyfer 2026-27.

10 **Rhowch 'X' yn y blwch os ydych yn gwneud cais i ostwng eich taliadau ar gyfrif ar gyfer 2026-27** – nodwch swm gostyngol eich taliad cyntaf ym mlwch 11 a nodwch pam rydych yn gwneud y cais ym mlwch 17 ar dudalen TC 2 y ffurflen hon

11 **Eich taliad ar gyfrif cyntaf ar gyfer 2026-27** – nodwch y swm (gan gynnwys ceiniogau)

£ . 

## Y lwfans person dall sydd dros ben a'r lwfans pâr priod sydd dros ben

Nodwch swm y lwfans sydd dros ben a drosglwyddwyd o'ch priod neu eich partner sifil.

**12** **Y lwfans person dall sydd dros ben y gallwch ei gael**

£ . 0 0

**13** **Os cawsoch chi neu eich priod neu eich partner sifil eich geni cyn 6 Ebrill 1935, nodwch swm y lwfans pâr priod sydd dros ben y gallwch ei gael**

£ . 0 0

## Addasiadau i'r dreth sy'n ddyledus

Efallai y bydd angen i chi wneud addasiad er mwyn cynyddu neu ostwng eich treth ar gyfer 2025-26, a gyfrifir drwy gyfeirio at flwyddyn gynharach, oherwydd eich bod yn hawlio trefniant cyfartalu ar gyfer ffermwyr a chrewyr gweithiau llenyddol neu artistig, neu'n gwneud addasiadau penodol i flynyddoedd cynharach.

Os ydych yn cario colledion penodol yn ôl o 2026-27 i 2025-26, bydd unrhyw ad-daliad ar ffurf credyd yn cael ei roi ar eich datganiad o gyfrif Hunanasesiad a chaiff ei osod yn erbyn symiau eraill sydd i'w talu ac ni fydd yn effeithio ar y ffigurau ym mlychau 1 i 6 ar dudalen TC 1. Os bydd angen help arnoch wrth lenwi'r blychau hyn, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth.

**14** **Cynnydd yn y dreth sy'n ddyledus oherwydd addasiadau i flwyddyn gynharach**

£ .

**15** **Gostyngiad yn y dreth sy'n ddyledus oherwydd addasiadau i flwyddyn gynharach**

£ .

**16** **Unrhyw ad-daliad ar gyfer 2026-27 rydych yn ei hawlio nawr**

£ .

## Unrhyw wybodaeth arall

**17** **Rhowch unrhyw wybodaeth arall yn y fan hon**